

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

PENODI AELOD ANNIBYNNOL I'R PWYLLGOR SAFONAU

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf am benodi aelod annibynnol (ac aelod annibynnol wrth gefn) i'w Pwyllgor Safonau. Mae Pwyllgor Safonau Cyngor y Fwrdeistref Sirol wedi'i sefydlu o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ac is-ddeddfwriaeth. Yn rhan o'i gylch gorchwyl y mae ystyried materion cysylltiedig ag ymddygiad Aelodau Etholedig. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys aelodau etholedig o'r Cyngor, Aelod Cyngor Cymuned ac aelodau annibynnol. Caiff Cadeirydd ac Is-gadeirydd y pwyllgor eu hethol o'r aelodau annibynnol.

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r meini prawf canlynol ar gyfer penodi aelodau annibynnol:

- Rhaid iddyn nhw fod yn 'annibynnol', yn unol â diffiniad Rheoliadau Pwyllgor Safonau (Cymru) 2001, rhaid iddyn nhw beidio â bod wedi'u hanghymwyso gan y rheoliadau hynny na chan Adran 80 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972
- Rhaid iddyn nhw fod â'r hawl i gael eu cynnwys ar gofrestr etholwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.
- Rhaid iddyn nhw fod yn aelod parchus o'r gymuned yn yr ardal a wasanaethir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, a meddu ar brofiad perthnasol i waith Pwyllgor Safonau.

Yn ogystal â hynny, rhaid i bob ymgeisydd fod yn gwbl annibynnol o wleidyddiaeth.

Bydd y penodiad am gyfnod o chwe blynedd. Mae gan aelod annibynnol hawl i gael lwfans dyddiol ar gyfradd o £198 (£99 am ½ diwrnod) a threuliau am fynychu cyfarfodydd, sy'n daladwy yn unol ag Atodlen y Cyngor ar Dâl Aelodau.

Mae modd cael ffurflenni cais a manylion ychwanegol gan Mr C. B. Jones, Swyddog Monitro, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Swyddfeydd Cyngor y Fwrdeistref Sirol, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach CF40 2XX – Ffôn (01443 424045) e-bost cyfarwyddwr.cyfreithiol@rctcbc.gov.uk

Dylid dychwelyd ffurflenni cais wedi'u llenwi erbyn dydd Mawrth, 6 Chwefror 2018 fan bellaf.